http://www.gwybodaeth.com/yrhiraf

GWYBODAETH

- Hafan
- Cymorth
- Cwestiynau
- Gweinyddu
- Hawlfraint
- Cofrestru

## YR HIRAF

Am ryw reswm mae gennym obsesiwn gyda'r mwyaf, y lleiaf, yr hynaf, yr ieuengaf, y talaf, y byrraf, y cyflymaf, y cryfaf ac ymlaen ac ymlaen! Mae'r obsesiwn mor fawr fel bod llyfr yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn – *The Guinness Book of Records.*

Ond does dim amheuaeth mai yma yng Nghymru mae'r pentref gyda'r enw hiraf yn y byd, yr enwog

**Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch**

Mae'n creu trafferthion mawr i bobl di-Gymraeg ac yn peri chwerthin wrth i'w tafodau fynd yn glymau i gyd wrth geisio ei ynganu!





**Sut daeth yr enw hwn i fod tybed?**
Llanfair Pwllgwyngyll – eglwys Mair wrth ymyl y pwll wrth ymyl y coed cyll gwyn – oedd yr enw gwreiddiol cyn iddo gael ei newid yn y 19eg ganrif.

Amaethyddiaeth oedd yn cynnal economi'r ardal am ganrifoedd a'r ffermwyr yn denantiaid un o'r tair stad fawr oedd yn yr ardal. Yn 1563 dim ond 80 o bobl oedd yn byw yno a hynny mewn 16 tŷ. Erbyn 1801, fodd bynnag, roedd 385 o drigolion a 83 o dai.

Pan adeiladwyd y ffordd A5 i Gaergybi, Pont Britannia gan Thomas Telford yn 1836 a'r rheilffordd rhwng Caer a Chaergybi ddechrau'r 1850au datblygwyd rhan newydd o'r pentref wrth yr orsaf drenau. O ganlyniad i hyn symudodd nifer o grefftwyr, a masnachwyr i'r pentref a datblygodd Llanfairpwll yn ganolfan masnach i ardaloedd amaethyddol Llanedwen a Phenmynydd.

http://www.gwybodaeth.com/yrhiraf



*Pont Britannia*

Ddechrau'r 1850au codwyd pwyllgor yn y pentref i feddwl am ffyrdd i ddenu trenau a theithwyr i stopio yn y pentref gan wybod y byddai hynny'n dod ag arian ychwanegol i'r ardal. Crydd lleol greodd yr enw newydd ac mae'n sicr wedi llwyddo i roi'r pentref ar y map. Deuai twristiaid yno yn eu miloedd i gael tynnu eu lluniau wrth ymyl yr enw yn yr orsaf.

Talodd ar ei ganfed i'r pentref ac yn ystod y cyfnod cyffrous hwn sefydlwyd Swyddfa Bost, dwy ysgol, hanner dwsin o dafarndai, bragdy a gwesty ac erbyn 1889 roedd dwsin siop groser yn y pentref. Agorwyd marchnad da byw yn 1894 ac ym mhorthladd Pwllfanogl gerllaw sefydlwyd ffatri llechi. Yn wir, roedd y cyfnod 1850-1914 yn oes aur yn hanes economaidd y pentref.

Mae'r pentref yn dal i ddenu twristiaid ond ddim ar y trên. Bysiau sy'n galw heibio siop James Pringle heddiw ac yn cael tynnu eu llun o dan yr arwyddbost sy'n cyfeirio at eu mamwlad - lleoedd pellennig fel Canada a Seland Newydd.